# SL(6)704 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2026

## Cefndir a Diben

Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau ("ETS") y DU gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("Gorchymyn 2020") fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, a fydd yn ffordd gost-effeithiol o annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau eu hallyriadau. Fe'i lluniwyd ar y cyd gan y pedair llywodraeth yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithredu'r ETS ar y cyd fel Awdurdod ETS y DU ("yr Awdurdod"), sy'n cymryd lle cyfranogiad y DU yn ETS yr UE. Mae'n cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'r llwybr i leihau allyriadau yng Nghymru.

Mae'r ETS yn cymell ymdrechion i ddatgarboneiddio drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr brynu lwfansau, y mae'n rhaid iddynt eu monitro, adrodd arnynt a'u hildio. Mae'r ETS yn rhedeg am 10 mlynedd ac wedi'i rannu ar draws dau gyfnod dyrannu, sef 2021-2025, 2027-2030, ac un flwyddyn ar ei phen ei hun ar gyfer y cynllun (blwyddyn 2026 y cynllun). Yn ystod y cyfnodau hynny, mae rhai gweithredwyr yn gymwys i gael dyraniad lwfansau am ddim ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Yn 2023, ymgynghorodd yr Awdurdod ynghylch "Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim". Dilynwyd hyn gan ymgynghoriad arall yn 2024 ynghylch "Dadleoli Carbon". Cafodd y penderfyniadau polisi terfynol yn Ymateb yr Awdurdod i'r ymgyngoriadau hyn eu datblygu'n unol â chyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd Mecanwaith Addasu Ffiniau Carbon y DU (CBAM y DU) yn cael ei gyflwyno yn 2027. Maent hefyd yn adlewyrchu'r cytundeb rhwng y DU a'r UE i weithio tuag at gysylltu ETS y DU ac ETS yr UE. Mae'r diwygiadau arfaethedig sydd i'w gwneud gan y Gorchymyn hwn yn ymgorffori'r rhain yn neddfwriaeth yr ETS ar sail pedair gwlad.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/331 (y "Rheoliad Dyraniadau am Ddim") i wneud tri phrif newid i'r cyfrifiad o ddyraniadau am ddim ar gyfer y cyfnod dyrannu 2027-2030. Er mwyn gweithredu'r prif newidiadau hyn ar draws ETS y DU, caiff Gorchymyn 2020 a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1842 eu diwygio hefyd.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae erthygl 19(8) o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Erthygl 16 o'r Rheoliad Dyraniadau am Ddim (2019/331). Nod y Gorchymyn yw mewnosod testun ym mrawddeg gyntaf paragraff 5, ar ôl yr ymadrodd "*for the relevant period*". Fodd bynnag, nid yw'r ymadrodd hwn yn ymddangos ym mrawddeg gyntaf paragraff 5. Yr ymadroddion "*relevant baseline periods*" a "*relevant allocation period*" sy'n ymddangos. Mae angen eglurhad pellach ynghylch ym mha le y dylid mewnosod y testun y cyfeirir ato yn erthygl 19(8)(a).

**2. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Nodwn fod paragraff 2.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *"Gan y bydd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ddarostyngedig i graffu seneddol gan y DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon, nid ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud neu ei osod yn ddwyieithog."*

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd cyntaf.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**14 Ionawr 2026**